

HYSBYSIAD CYHOEDDUS
GORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN (CAERFYRDDIN) (CYFYNGU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (AMRYWIAD RHIF 16) 2016

HYSBYSIR trwy hyn fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adran 1(1), 2(1) hyd (3), ac 1 2 4 a Rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd a Deddf Rheoli Traffig 2004.

Effaith y Gorchymyn fydd diwygio Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Caerfyrddin) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) 2004 ("Y Gorchymyn Cydgyfnerthu") (sydd yn darparu ar gyfer cymryd camau gorfodi sifil mewn perthynas â thorri'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau ar aros) drwy gyfnewid y cynlluniau sydd ynghlwm wrth y gorchymyn arfaethedig am y cynllun a oedd ynghlwm wrth y gorchymyn. Canlyniad y diwygio arfaethedig fydd:

1. Gwahardd aros ar unrhyw adeg ar y darnau ffordd ac ar yr ochr ffordd a nodir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn
2. Gwahardd aros heblaw am lwytho a dad lwytho nwyddau ar yr ochr ffordd a nodir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn
3. Cyfyngiad ar aros o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.00 a.m. a 6.00 p.m. i 1 awr heb ddychwelyd cyn pen 1 awr, ar y darnau ffordd ac ar yr ochr ffordd a nodir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn
4. Diwygio Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Caerfyrddin) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) 2004 i'r graddau y mae'n berthnasol i'r ochrau ffordd a nodir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn

gan gymryd lle'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau presennol (os oes rhai) sydd yn effeithio ar y darnau ffordd.

Bydd darpariaethau'r eithriadau arferol sydd yn y Gorchymyn Cydgyfnerthu yn weithredol o ran y darnau ffordd a'r ochrau ffordd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1 2 a 3 uchod. Mae'r rhain yn cynnwys hawl teithwyr i esgyn i gerbyd neu ddisgyn ohono, llwytho a dadlwytho nwyddau, cyflawni gwaith adeiladu a gwaith arall, cyflawni dyletswyddau neu bwerau statudol a galluogi cerbyd i gael petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw fodur sydd ger y cyfryw ddarnau ffordd y mae'r cyfyngiad arfaethedig yn effeithio arnynt.

Hefyd, mae'r Gorchymyn Cydgyfnerthu yn cynnwys y consesiynau parcio arferol (lle bo'n briodol) ar gyfer pobl anabl yn unol â'r Cynllun Bathodynau Glas.

Mae manylion llawn y cynigion hyn i'w cael yn y Gorchymyn drafft a gall copi ohono ynghyd â chynlluniau a atodwyd wrtho sy'n dangos y darnau ffordd yr effeithir arnynt, a datganiad am resymau'r Cyngor dros fwriadu gwneud y Gorchymyn, gael eu harchwilio yn swyddfeydd Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor yn 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, yn ystod oriau arferol y swyddfa.

Os dymunwch wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig dylech gyflwyno eich rhesymau dros wrthwynebu ar ffurf llythyr a'i anfon at Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith erbyn yr 22ain o Ragfyr, 2016.

DYDDIEDIG Y 30ain o Ragfyr, 2016
Cyfeirnod y Ffeil: RWJ/HTTR-1415
Llinell Uniongyrchol: (01267) 224074
e-bost: rwjones@sirgar.gov.uk

MARK JAMES
Y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir
Caerfyrddin

ATODLEN 1
Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg

| Enw'r Ffordd | Y darn ffordd a'r ochr |
|---------------------|---|
| Y Cei, Caerfyrddin | Ar yr ochr Ogleddol O bwynt 152 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd ar A4242, Ffordd y Cwrwg am bellter o 11 metr i gyfeiriad y gorllewin. |

ATODLEN 2
Gwahardd Aros Heblaw am Lwytho neu Dad Lwytho Nwyddau

| Enw'r Ffordd | Y darn ffordd a'r ochr |
|---------------------|---|
| Y Cei, Caerfyrddin | Ar yr ochr Ogleddol O bwynt 127 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd ar A4242, Ffordd y Cwrwg am bellter o 25 metr i gyfeiriad y gorllewin. |

ATODLEN 3
Cyfyngu ar Aros o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, 8 a.m. - 6 p.m., 1 Awr Heb Ddychwelyd Cyn Pen 1 Awr

| Enw'r Ffordd | Y darn ffordd a'r ochr |
|---------------------|--|
| Y Cei, Caerfyrddin | Ar yr ochr Ogleddol O bwynt 6 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd ar A4242, Ffordd y Cwrwg am bellter o 35 metr i gyfeiriad y gorllewin. O bwynt 98 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd ar A4242, Ffordd y Cwrwg am bellter o 21 metr i gyfeiriad y gorllewin. |
| Y Cei, Caerfyrddin | Ar yr ochr Dde O bwynt 3 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd ar A4242, Ffordd y Cwrwg am bellter o 19 metr i gyfeiriad y gorllewin. |

-